


Proses delio â chwynion a chynnal ymchwiliadau: safonau'r Gymraeg

Dyma wybodaeth gryno am sut bydd y Comisiynydd yn delio â chwynion ac ymchwiliadau. Mae gwybodaeth fwy manwl yn y Polisi Gorfodi ar ein gwefan.


Delio â chwynion



* Mae cwynion dilys wedi eu cyflwyno'n ysgrifenedig (oni bai fod amgylchiadau personol yn rhwystro hynny) ac yn cynnwys manylion digonol. Os nad yw'r gŵyn yn ddilys, bydd y Comisiynydd yn esbonio sut i wneud cwyn ddilys.

Cynnal ymchwiliadau

Gall y Comisiynydd benderfynu ymchwilio mewn ymateb i gŵyn neu oherwydd amheuaeth arall o fethiant i gydymffurfio â safonau (er enghraifft yn sgil gwybodaeth gan y cyhoedd, yn y cyfryngau, neu wybodaeth a ddarperir gan sefydliad). Wrth gynnal ymchwiliad, dyma fydd y Comisiynydd yn ei wneud:



Dyfarnu a chamau gorfodi

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu nad yw'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio, gall naill ai beidio â gweithredu ymhellach neu roi argymhellion neu gyngor i'r sefydliad neu berson arall.

Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, gall naill ai beidio â gweithredu ymhellach neu:

- ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad baratoi cynllun gweithredu, neu gymryd camau, er mwyn atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
- rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant, neu ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad wneud hynny;
- gosod cosb sifil ar y sefydliad (dirwy o hyd at £5,000);
- rhoi argymhellion neu gyngor i'r sefydliad neu berson arall;
- ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo â'r sefydliad.

Cyhoeddir manylion yr ymchwiliad ar y Gofrestr Camau Gorfodi, gan gynnwys disgrifiad o'r ymchwiliad, canfyddiadau, dyfarniad, a datganiad ynghylch gweithredu pellach.

Gall y Comisiynydd derfynu ymchwiliad statudol os yw'n credu, er enghraifft, fod yr ymchwiliad yn ddefnydd anghymesur o'i hadnoddau, fod achwynydd wedi cyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth anwir mewn modd anghyfreithlon, fod terfynu'r ymchwiliad yn llesol o ran budd cyhoeddus, neu fod y sefydliad wedi ei ddiddymu.

Ceisiadau ac apelau i Dribiwnlys y Gymraeg

Gall achwynydd wneud cais neu apel i'r Tribiwnlys am wahanol faterion:

- gwneud cais i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad;
- gwneud cais i'r Tribiwnlys adolygu penderfyniad i derfynu ymchwiliad;
- apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn dyfarniad nad yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon.

Mae gan sefydliadau hawl i wneud cais neu apel i'r Tribiwnlys am wahanol faterion:

- gwneud cais i'r Tribiwnlys ddileu hysbysiad tystiolaeth os yw o'r farn fod gofynion yn ddiangen, yn afresymol neu'n anghymesur;
- apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn dyfarniad o fethiant i gydymffurfio;
- apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn camau gorfodi ar y sail eu bod yn afresymol neu'n anghymesur.

Mae manylion llawn am geisiadau ac apelau i'r Tribiwnlys ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.